# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ty Hywel – Ystafell Bwyllgora 4** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 21 Mehefin 2011** |
| Amser: | **08:30 - 08:50** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Peter Black**<br>**Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Jocelyn Davies**<br>**Jane Hutt**<br>**Nick Ramsay** |
| Staff y Pwyllgor: | **Anna Daniel (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**<br>**Peter Greening, Welsh Government**<br>**Marion Stapleton, Welsh Government**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth** |

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

## 2. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3. Trefn Busnes

3(i) Busnes yr wythnos hon

Dywedodd Arweinydd y Tŷ y byddai'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau'n gwneud datganiad ar y Comisiwn Ffiniau ddydd Mercher.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyflwyno cynnig i ohirio'r Rheolau Sefydlog ddydd Mercher er mwyn caniatáu i gynigion i sefydlu pwyllgorau gael eu cyflwyno. Yn dilyn y cynigion i sefydlu pwyllgorau, byddai cynigion i ethol Aelodau i bob pwyllgor yn cael eu cyflwyno.

Ddydd Mawrth, byddai'r cyfnod pleidleisio'n digwydd cyn y ddadl fer. Ddydd Mercher, cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r cyfnod pleidleisio'n cael ei gynnal ar ôl cwblhau'r eitem olaf o fusnes.

Nododd y Pwyllgor Busnes drefn y busnes ar gyfer 21 a 22 Mehefin 2011.

3(ii) Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3(iii) Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Pennodd y Pwyllgor drefn busnes y Cynulliad.

## 4. Pwyllgorau

4(i) Sefydlu'r pwyllgorau a'u cylch gwaith

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar deitlau, cylch gwaith a maint y pwyllgorau ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad. Cytunwyd y byddai adroddiad yn cael ei baratoi ar y pynciau sy'n dod o fewn cylch gwaith y pwyllgorau er mwyn rhoi eglurder ynghylch y prif bwyllgor(au) sy'n gyfrifol am bob maes. Byddai hefyd yn cynnig canllawiau /arferion o ran rôl y pwyllgorau.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai craffu ar faterion Ewropeaidd yn rhan bwysig o'r adolygiad 12 mis a gaiff ei gynnal o'r system bwyllograu newydd.

| **Teitl y pwyllgor** | **Aelodaeth** | **Cadeiryddiaeth** |
|---|---|---|
| Cyfrifon Cyhoeddus | 8 | Ceidwadwyr |
| Cyllid | 8 | Plaid Cymru |
| Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol | 4 + Cadeirydd | Dirprwy Lywydd |
| Deisebau | 4 | Y Democratiaid Rhyddfrydol |
| Safonau Ymddygiad | 4 | Llafur |
| Plant a phobl ifanc | 10 | Llafur |
| Amgylchedd a chynaliadwyedd | 10 | Plaid Cymru |
| Iechyd a gofal cymdeithasol | 10 | Llafur |
| Cymunedau, cydraddoldeb a llywodraeth leol | 10 | Llafur |

| | | |
|---|---|---|
| Menter a busnes | 10 | Ceidwadwyr |